# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**307 - Beirniadaeth Creu Ap Bl 7, 8 a 9**
**Beirniad: Tomos H Evans**

Cyntaf - Deian Whitham

Gêm llawn cyffro gyda mecaneg sylfaenol ond cyflym yn seiliedig ar y thema coginio. Mae'r holl nodweddion hyn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan gydio fy niddordeb ac yn fy ysu i chwarae ymlaen. Gyda'i symudiadau cyflym a thechnegau neidio, roedd symudiad y cymeriad yn teimlo'n gyfforddus ac yn deyrnged braf i glasuron fel Super Mario.
Roedd yn wych cael rheolau a rheolaethau'r gêm yn syth bin, gan roi'r argraff i chi eich bod yn ymgysylltu â'r cymeriadau. Defnydd da o effeithiau sain briodol, gan gynnwys y defnydd o seiniau ar gyfer sgorio pwyntiau, cyfrif pwyntiau, a phan gyflawnir sgôr uchel. Ar y cyfan, roeddwn yn ysu i geisio eto a chael y sgôr uchaf posib.

Ail- Edward Fulton

Ar y cyfan mae'r gêm hon yn syniad gwych i ddysgwyr Cymraeg newydd. Mae'r rheolau'n cael eu hesbonio'n glir ar y dechrau ac roedd yr her yn ddiddorol gan fod yr amcanion wedi'u cuddio'n dda yn yr amgylchedd, gan gadw'r chwaraewr ar blaen ei draed. Er bod y fecaneg yn syml, yr amcan y gêm yw dysgu'r geiriau Cymraeg ac mae'n traddodi'n dda arno, gan ddweud y gair Cymraeg ar gyfer pob eitem ddewisol ac yna'ch holi ar y diwedd fel rhyw fath o ddarllen a deall.
Mae gan y gêm hon sylfaen addawol a all fod yn ganllaw gwych i ddysgwyr Cymraeg, yn enwedig os ychwanegwyd camau bellach a all cynnwys camau datblygedig, sy'n helpu pobl i ddysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg eraill fel eitemau cartref, enwau trefi ac ati. Ar y cyfan, mae'n gyfuniad da o gêm ryngweithiol sy'n yn llawn gwybodaeth ddiddorol.

## **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

Trydydd- Noah Cunningham

Cysyniad syml sydd wedi'i weithredu'n effeithiol iawn. Mae'n aml yn wir mai'r gemau gyda'r nodau mwyaf sylfaenol yw'r rhai mwyaf pleserus i'w chwarae. Mae'r gêm gyflym hon yn her wych i unigolion sydd am weld pa mor gyflym y gallant ymateb, clicio ar yr amcan, i geisio am y sgôr uchaf. Byddai hon yn gêm wych i chwarae gyda ffrindiau, gyda phawb yn cystadlu i gael y sgôr uchaf. Mae hyd yn oed yr effeithiau sain ddoniol yn cadw diddordeb y chwaraewyr trwy roi gwybod iddynt pan fyddant wedi sgorio pwynt yn llwyddiannus.

1af - Deian Whitham
2il - Edward Fulton
3ydd - Noah Cunningham